PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Bywyd Preswyl
Residential Life

MENTOR

CAMPWS BYW
PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY
CAMPUS LIFE



# Ymunwch â’r Tîm Bywyd Preswyl!

# 2025

bangor.ac.uk/cy/accommodation/residential-life-team

# Pwy ydym ni?

Mae'r Tîm Bywyd Preswyl yn gyfrifol am feithrin cymuned breswyl glos a chefnogi lles yr holl fyfyrwyr sy'n byw yn llety Prifysgol Bangor.

**Mae'r tîm yn cynnwys Cydlynwyr Campws Byw a Mentoriaid Preswyl.**



# Cefndir

Mae Campws Byw yn rhaglen o ddigwyddiadau cymdeithasol a grëwyd gan dîm o gydlynwyr myfyrwyr ac a gyflwynir am y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Cynhelir digwyddiadau ym Mhentrefi Ffriddoedd a'r Santes Fair, yn ogystal ag oddi ar y safle mewn llawer o wahanol lefydd ar draws gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr. Mae digwyddiadau'r gorffennol wedi cynnwys nosweithiau cerddoriaeth fyw, dosbarthiadau meistr ffug, noson sinema awyr agored, adeiladu rafftiau, heicio'r Wyddfa ac Ystafelloedd Dianc. Rydym hefyd yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau unigryw gan gynnwys cinio dydd Sul, nosweithiau cwis, bingo, dosbarthiadau coginio a nosweithiau ffilm.

Mae ein tîm Mentoriaid Preswyl yn canolbwyntio ar ofal bugeiliol a lles, trwy gefnogi cyd-fyfyrwyr. Mae'r tîm Mentoriaid, gyda chefnogaeth Uwch Wardeniaid, yn darparu cefnogaeth y tu allan i oriau i breswylwyr, 365 diwrnod y flwyddyn. Rydym yno i helpu myfyrwyr ag amrywiaeth eang o bryderon o hiraeth i gymdogion swnllyd, a byddwn yn eu cyfeirio at rwydweithiau cefnogaeth perthnasol yn fewnol ac yn allanol os oes angen.

**Mae'r ddwy rôl yn cael eu rheoli a'u cefnogi gan staff llawn amser yn yr Adran Bywyd Preswyl.**

# Beth mae pob tîm yn ei wneud?

## Cydlynwyr Campws Byw

Mae 10 swydd ar gael i ymuno â'r tîm Campws Byw. Mae llety wedi'i gynnwys i'ch galluogi i wneud eich rôl, a bydd pum aelod yn byw ym Mhentref Ffriddoedd a phump ym Mhentref y Santes Fair.

### Gyda chefnogaeth y Cydlynydd Bywyd Preswyl byddwch yn:

- Cyd-greu'r calendr digwyddiadau fel tîm.
- Cyflwyno pob agwedd ar ddigwyddiadau yn llwyddiannus.
- Dosbarthu deunydd marchnata ar draws y campws.
- Postio'n rheolaidd ar gyfryngau cymdeithasol yn hyrwyddo'r digwyddiadau a'r ymgyrchoedd.
- Ymweld â fflatiau yn wythnosol i ddal i fyny â phreswylwyr a rhoi gwybod iddynt am ddigwyddiadau.
- Diweddaru hysbysfyrddau perthnasol ar draws y campws.
- Mynd i gyfarfodydd tîm wythnosol i adolygu'r calendr digwyddiadau.
- Cynllunio digwyddiadau ac ymgyrchoedd sydd i ddod.
- Mynd i ddiwrnodau agored a chefnogi gweithgareddau marchnata i hyrwyddo Prifysgol Bangor.

## Mentoriaid Preswyl

Mae'r tîm yn cynnwys 30 o fentoriaid-fyfyrwyr sy'n cydweithio ag Uwch Wardeiniaid a Swyddogion Diogelwch.

### Gyda chefnogaeth gan yr Uwch Wardeniaid byddwch yn:

- Darparu cefnogaeth rheng flaen i fyfyrwyr trwy fod ar alwad mewn achosion brys. Gwneir hyn ar sail rota gyda'r nos/nosweithiau, penwythnosau a gwyliau'r Brifysgol.
- Helpu i gyfryngu anghydfodau myfyrwyr.
- Ymateb i argyfyngau ar y safle ochr yn ochr ag Uwch Wardeiniaid a Swyddogion Diogelwch
- Darparu adroddiadau ysgrifenedig o bob digwyddiad a damwain i gefnogi'r Prif Warden.
- Cymryd rhan weithredol mewn ymarferion tân, atal troseddau ac ymwybyddiaeth iechyd a diogelwch.
- Cynnal gwiriadau coridor a chegin wythnosol i sicrhau bod y llety'n ddiogel ac yn lân.
- Mynd i gyfarfodydd tîm wythnosol i drafod materion sydd wedi codi yn ystod yr wythnos a chymryd rhan mewn hyfforddiant tîm.
- Mynd i ddiwrnodau agored a chefnogi gweithgareddau marchnata i hyrwyddo Prifysgol Bangor.

# Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl?

Mae'r ddwy rôl yn gofyn am ymrwymiad o **40 awr y mis** ar gyfartaledd, neu tua **10 awr yr wythnos**. Sylwch y bydd y ddwy rôl yn cynnwys gwaith penwythnos a gyda'r nos, a rhaid i chi fod ar gael i weithio ar rota i gyflawni'r gofyniad hwn.

Mae'n ofynnol i Gydlynwyr Campws Byw a Mentoriaid Preswyl weithio yn **ystod Diwrnodau Agored** yn hyrwyddo'r rhaglen Bywyd Preswyl a chynrychioli Neuaddau Prifysgol Bangor, yn ogystal â'r Adran Bywyd Preswyl.

Bydd angen nifer dethol o Fentoriaid Preswyl i weithio dros wyliau'r Brifysgol.

Ni fydd Cydlynwyr Campws Byw yn cynnal digwyddiadau yn ystod gwyliau'r Brifysgol, ond bydd gofyn iddynt ddychwelyd cyn dechrau'r tymor i ddosbarthu'r calendr.

Mae llawer o sgiliau y gofynnwn amdanynt yn y rolau hyn yn gwbl drosglwyddadwy ac rydym yn aml yn gweld yr un rhinweddau yn y ddwy set o ymgeiswyr.

***Sylwch - byddwn yn ystyried eich cais ar gyfer y ddwy rôl oni bai eich bod wedi nodi dewis ar eich ffurflen gais***

**Bydd angen gwiriad DBS ar gyfer y ddwy rôl.**



# Dyma rai o fanteision ymuno â'r tîm...

- **Pecyn llety gwerth dros £5500!**
  Yn cynnwys yr holl filiau, Wi-Fi, diogelwch 24/7 ac aelodaeth o gampfa
- **Golchfa am ddim**
  Un golch a sychu am ddim yr wythnos am hyd y contract
- **Cyfleoedd hyfforddi cynhwysfawr gan gynnwys tystysgrif cymorth cyntaf.**
- **Cydnabod y profiad ar eich trawsgrifiad academaidd (CCAU)**
- **Cyfleoedd rhwydwaith gwych ar draws y Brifysgol a'r gymuned**
- **Arwain teithiau a phrofiadau anhygoel**
- **Gwneud ffrindiau am oes**
- **Profiad gwaith gwych ar gyfer eich CV**
  Gwella eich sgiliau rheoli amser, gwaith tîm a threfnu. Datblygu hyder wrth ymdrin â sefyllfaoedd dan bwysau a chyfathrebu ag amrywiaeth o fyfyrwyr a staff ar draws y Brifysgol.



# Gofynion Personol ar gyfer pob ymgeisydd:

## Addysg / Hyfforddiant

Rhaid i ymgeiswyr fod yn fyfyrwyr israddedig neu ôl-raddedig mewn addysg llawn amser ac eisoes wedi treulio o leiaf 1 semester ym Mhrifysgol Bangor.

## Profiad a Sgiliau

- Gallu cyfathrebu'n effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Rheoli amser yn rhagorol.
- Hyderus wrth ymwneud â myfyrwyr mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.
- Mae profiad blaenorol o weithio mewn sector gwasanaethau cwsmeriaid yn ddymunol.
- Mae gallu cyfathrebu yn Gymraeg yn ddymunol, ond nid yw'n hanfodol.

## Nodweddion Personol

- Unigolyn brwdfrydig, cymdeithasol ac allblyg.
- Gallu creu perthynas â myfyrwyr o wahanol gefndiroedd diwylliannol a chymdeithasol.
- Sgiliau rhyngbersonol da, gyda'r gallu i ddatblygu cysylltiadau gwaith effeithiol â chydweithwyr ar bob lefel yn y Brifysgol.
- Hynod drefnus
- Ymddygiad proffesiynol
- Gallu gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm
- Y gallu i feddwl ar eich traed ac addasu i sefyllfaoedd yn gyflym.
- Gwneud penderfyniadau'n hyderus – weithiau mewn amgylcheddau â llawer o bwysau
- Adrodd yn gywir a chysylltu'n effeithiol.

**Darperir hyfforddiant cynhwysfawr i bob ymgeisydd llwyddiannus rhwng 8fed – 17eg Medi.**



# Rhestr wirio wrth wneud cais

| Meini prawf hanfodol | Cydlynydd Campws Byw | Mentor Bywyd Preswyl |
|---|---|---|
| Myfyriwr Prifysgol Bangor sydd wedi cofrestru'n llawn o fis **Medi 2025 - Mehefin 2026.** | ✓ | ✓ |
| Yn byw mewn ystafell ddynodedig yn Neuaddau Preswyl Prifysgol Bangor. | ✓ | ✓ |
| Gweithio yn niwrnodau agored y Brifysgol yn ôl gofynion y Tîm Bywyd Preswyl. | ✓ | ✓ |
| Mynychu hyfforddiant tîm Bywyd Preswyl gorfodol o **8fed – 17eg Medieg 2025.** | ✓ | ✓ |
| Bydd yn ofynnol gweithio yn ystod yr Wythnos Groeso, o **22ain - 28ain Medi 2025.** | ✓ | ✓ |
| Gwybodaeth am lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. | ✓ | ✗ |
| Cwblhau gwiriad boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) cyn dechrau gweithio. | ✓ | ✓ |

# Felly pam ymuno â'n tîm?

## Dyma beth mae cyn-fyfyrwyr wedi'i ddweud am eu hamser gyda'r tîm...

Pan ddechreuais gyda Champws Byw, roeddwn i'n gwybod y byddwn i'n ennill profiad trwy weithio a chynnal digwyddiadau. Yr hyn nad oeddwn yn ei wybod oedd y byddwn yn datblygu sgiliau a hyder amhrisiadwy mewn meysydd nad oeddwn yn meddwl oedd yn bosibl. Mae bod yn aelod o'r tîm hwn wedi bod yn gymaint o hwyl ac wedi bod yn agoriad llygad; alla i ddim aros i weld beth ddaw nesaf

---

Mae Campws Byw wir yn dod â'r gorau allan ynoch chi. Roedd bod yn rhan o'r tîm yn profi y gallwn i gael hwyl wrth weithio'n galed. Mae profiad gwaith Campws Byw wedi dysgu cymaint o sgiliau trefnu a rheoli i mi ac mae'n ffordd wych o roi cynnig ar bethau newydd.

---

Mae rôl y mentor yn cynnig set werthfawr o sgiliau trosglwyddadwy y mae cyflogwyr y dyfodol wrth eu bodd yn eu gweld. Byddwch bob amser yn cael eich cefnogi gan y tîm clos a fydd yn eich helpu i gyrraedd eich potensial mwyaf

---

Mae bod yn Fentor Preswyl ym Mhrifysgol Bangor wedi rhoi'r hyder i mi weithio mewn grwpiau ac fel unigolyn. Rydw i wedi dod yn ymwybodol o'r effaith y gall amgylchiadau arbennig ei chael ar waith academaidd myfyrwyr, yn ogystal â'r gofal bugeiliol sydd ar gael yn y Brifysgol ac yn allanol.

# Eisiau gwneud cais o hyd?

## Llenwch ein ffurflen gais yma!

- Mae ceisiadau ar agor o **$1^{af}$ Rhagfyr - $31^{ain}$ Ionawr 2025.**
- Cynhelir cyfweliadau rhwng **Dydd Gwener $7^{fed}$ neu Dydd Sadwrn $15^{fed}$ Chwefror** (Ni fydd y sesiynau'n para mwy na 2 awr)
- Ein nod yw rhoi gwybod i bob ymgeisydd erbyn **$3^{ydd}$ - $14^{eg}$ Mawrth.**
- Bydd hyfforddiant gorfodol o **$8^{fed}$ - $17^{eg}$ Medi**. Rhaid i bob ymgeisydd llwyddiannus fod ym Mangor i fynychu hyfforddiant a dechrau dyletswyddau.
- Sylwch na chymerir unrhyw geisiadau gwyliau yn ystod mis Medi yn unol â pholisi'r adran Bywyd Preswyl a natur y rolau.
- Sylwch os gwelwch yn dda, os ydych yn arweinydd cyfoed ni fyddwch yn gallu ymgymryd â dyletswyddau arweinydd cyfoed rhwng **$8^{fed}$ - $30^{ain}$ Medi**.



PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

**Bywyd Preswyl**
Residential Life

# Ymunwch â'r Tîm Bywyd Preswyl!

MENTOR

CAMPWS BYW
PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY
CAMPUS LIFE

bangor.ac.uk/cy/accommodation/residential-life-team

